❖ Gweddi Nadolig

Darllen: Luc 2:1–7 neu Luc 2:1–20

Dduw Hollalluog,
ffynhonnell bywyd a chariad,
addolwn di'r Nadolig hwn,
am i ti ddod atom yn Iesu yn blentyn diymadferth
fel y gallem dy weld a'th adnabod.

Diolchwn, Dduw Hael,
am gynnig i ni fywyd yn ei gyflawnder
drwy enedigaeth, gweinidogaeth,
marwolaeth ac atgyfodiad Crist.

Mewn gweddi cyflwynwn i ti
ein teimladau cymysg y Nadolig hwn:
ein hapusrwydd a'n tristwch,
ein cyffro blinedig,
a'n hymchwil am lawenydd y Nadolig.

Maddau i ni am golli golwg
ar haelioni cariad y Nadolig,
a chymorth ni i'w dderbyn yn rasol
fel y gallwn ailddarganfod gwir heddwch.

Gweddïwn arnat, Emaniwel, Duw gyda ni,
am i ti ddod atom fel plentyn mewn angen
ac am dy fod yn parhau i'n cyfarfod yn anghenion eraill.

Cyflwynwn ger dy fron
y bobl sy'n dioddef yn ein byd.

Gweddïwn dros...
a thros ddioddefaint y rhai y gwyddom amdanynt
sy'n glaf...
neu mewn profedigaeth...

Cofiwn am y rhai sy'n unig ac yn bryderus,
ac am bawb sy'n cael y Nadolig yn anodd.
Cymorth ni i ddangos cariad dy Nadolig i'th fyd,
ac i gyhoeddi'r newyddion da o lawenydd mawr.

Olaf Davies